

Uwchgynhadledd Garddwriaeth C19
Canlyniadau cynhyrchwyr cynnyrch bwydadwy yng Nghymru Ebrill 2020

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymgynghoriad â thyfwyr ffrwythau a llysiau yng Nghymru ynghylch eu profiadau uniongyrchol a'u hymatebion i argyfwng Covid 19 (C19).

Dosbarthwyd arolwg byr yn holi ynghylch effeithiau C19 ar dyfwyr ffrwythau a llysiau i gysylltiadau perthnasol Tyfu Cymru (tua 150) a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd **34 o ymatebion dilys** yn ystod y 12 diwrnod pan oedd yn fyw (27.03.20-06.04.20). Daw'r ymatebwyr o bob rhan o Gymru, ac maen nhw'n cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o fusnesau gwahanol faint. Ar ben hyn, cynhaliwyd galwad fideo ar-lein ar 2 Ebrill, i ganiatáu i dyfwyr ac eraill drafod eu profiadau ac amlygu'r gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen. Ychwanegir at ganlyniadau'r arolwg yma gyda themâu o'r drafodaeth hon.

Cydlynwyd yr Arolwg a'r Uwchgynhadledd gan: Dr Hannah Pitt (Prifysgol Caerdydd), Dr Amber Wheeler (Y Sefydliad Bwyd), Katie Palmer (Food Sense Wales), Sarah Gould (Tyfu Cymru). [I gael gwybod rhagor, cysylltwch â pitth2@cf.ac.uk.](mailto:pitth2@cf.ac.uk)

Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Roedd y rhan fwyaf o dyfwyr wedi profi cynnydd sydyn, dramatig yn y galw am eu cynnyrch. Mae'r rhain wedi parhau y tu hwnt i gyfnod cychwynnol o brynu mewn panig.
- Er gwaethaf y ffaith bod llwybrau masnachu arferol wedi'u colli'n sydyn, nid yw'r tyfwyr wedi bod yn cynhyrchu gweddill. Ymatebodd y cynhyrchwyr yn gyflym i gael hyd i lwybrau gwerthiant amgen, gyda llawer yn dargyfeirio o'r fasnach arlwyio i ddsbarthu i gartrefi.
- Mae tyfwyr yn profi straen ar eu llwyth gwaith a'u capasiti oherwydd cyfuniad o ddiffyg gweithwyr a phwysau tasgau ychwanegol neu anghyfarwydd.
- Mae parodrwydd a photensial amlwg i gynyddu'r ffrwythau a'r llysiau a gynhyrchir yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o dyfwyr adnoddau i gyflawni hyn, yn arbennig ar fyr rybudd.
- Ar hyn o bryd mae'r sector yn dangos ei werth fel cyflenwr cynnyrch ffres i ddefnyddwyr yng Nghymru. Gyda chefnogaeth briodol, gallai hyn ddatblygu'n dwf parhaus.

2. Cynhyrchu Ffrwythau a Llysiau

Gofynnwyd i'r tyfwyr a ydynt yn cynnal lefelau cynhyrchu nodweddiadol. Dywedodd 66% eu bod yn gallu cyflenwi eu lefel arferol o gynnyrch ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. Yn achos y rhai oedd yn methu cynhyrchu'r lefelau disgwylidig, y rhesymau a roddwyd oedd:

- Salwch staff/argaeledd llafur (1)
- Cadw pellter cymdeithasol yn eu gweithrediadau (1)
- Prinder cyflenwadau/deunyddiau (1)

Cyfeiriodd eraill at ffactorau cysylltiedig â gwerthiant, fel canslo sioeau neu farchnadoedd, neu golli masnach arlwy, yn hytrach na chyfyngiadau ar gynhyrchu cnydau.


Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn bwriadu **newid eu cynhyrchu** mewn ymateb i'r argyfwng, dywedodd 73% eu bod. Y newidiadau arfaethedig yw:

- cyflwyno gwerthiannau newydd uniongyrchol, yn arbennig cynlluniau blychau (13 o dyfwyr)
- cynyddu plannu/cynhyrchu (10 o dyfwyr)
- newid y cnydau neu'r amrywiadau a dyfir (8 o dyfwyr)
- cyflwyno peth prosesu / cynnyrch amgen (3 o dyfwyr)
- lleihau cynhyrchu / prosesu (1 tyfwr)
- marchnata ar-lein (1 tyfwr)


Nid awgrymodd unrhyw dyfwyr y byddent yn cynhyrchu cnydau ar raddfa lai.

3. Y Galw

Gofynnwyd i dyfwyr roi gwybod am newidiadau i lefelau'r galw am eu cynnyrch, ar sail y patrymau disgwyliedig ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. Adroddodd 27% fod llai o alw, roedd 58% yn profi mwy o alw, ac adroddodd 15% nad oedd newid.



O'r rhai oedd yn profi galw cynyddol, roedd y mwyafrif yn gallu diwallu peth ohono, ond nid y cyfan:



Mae tuedd i'r rhai a brofodd **ostyngiad dramatig yn y galw** ar y cychwyn fod yn cyflenwi'r fasnach arlwy, neu'n gwerthu trwy farchnadoedd lleol neu siopau fferm sydd wedi peidio â masnachu. Mae llawer wedi gallu addasu eu cadwyn gyflenwi er mwyn parhau i werthu eu cynnyrch, felly nid ydynt wedi adrodd am gynnyrch dros ben.

Nododd rhai oedd wedi profi **cynnydd sylweddol yn y galw** fod hynny ar ei ddwysaf yn ystod cyfnod o 'brynu mewn panig' ond ei fod ers hynny wedi setlo i ryw 20% o alw ychwanegol.

Roedd sawl ymatebydd yn optimistaidd y gallai'r **patrymau defnydd** cyfredol gael ei gynnal, gyda galw uchel parhaus am gynnyrch o Gymru. Nodwyd bod canfyddiad ffafriol o allfeydd manwerthu lleol yn ystod yr argyfwng, ac y gallai hynny fod o fantais iddyn nhw (e.e. bod pobl yn eu hadnabod a'u trystio). Fodd bynnag, roedd peth pryder hefyd ynghylch natur anrhagweladwy arferion defnyddwyr:

Fyddwn ni ddim yn gwybod a fydd y galw digynsail hwn yn parhau unwaith bydd yr archfarchnadoedd yn ôl i'r arfer pan gaiff y cyfyngiadau symud eu llacio.

Mae ansicrwydd ynghylch tueddiadau defnyddwyr yn golygu ei fod yn anodd blaengynllunio neu gynhyrchu symiau priodol o ystyried yr amser **arwain i mewn hir** sy'n ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o gnydau. Yn ystod yr Uwch-gynhadledd nododd y tyfwyr na allant gynyddu cynhyrchiant yn gyflym oherwydd cylchoedd hau a phlannu, a bod hynny'n cyfyngu ar eu capasiti i ateb y galw. Fodd bynnag, roedd llawer yn optimistaidd y bydd y cynnydd cyfredol yn y galw a'r newidiadau i ddefnydd yn gadarnhaol i dyfwyr o Gymru yn y tymor canolig i hir.

Yn ystod yr Uwch-gynhadledd esboniwyd y sefyllfa ddiweddaraf o ran dosbarthu **cymorth bwyd mewn argyfwng**, gan sbarduno trafodaeth ar sut gallai tyfwyr gefnogi hyn neu gysylltu ag ef. Awgrymwyd grwpiau cymorth cilyddol lleol fel un llwybr i hwyluso hyn. Nodwyd, os bydd y gefnogaeth yn symud i gynlluniau talebau, y bydd angen i hynny gynnwys ystod o fanwerthwyr er mwyn osgoi cefnogi archfarchnadoedd a'u cadwyni cyflenwi yn unig.

4. Effaith yr argyfwng

Gofynnwyd i'r tyfwyr nodi sut mae'r sefyllfa'n effeithio ar eu busnes. Gellir categoreiddio'r prif faterion a amlygwyd fel a ganlyn:

- Angen addasu'r **llwybrau i'r farchnad** (16 o dyfwyr) - a chadwyni cyflenwi gan fod allfeydd wedi cau, neu wrth golli cwsmeriaid ar y safle. Mae llawer sydd wedi colli cwsmeriaeth reolaidd wedi newid i ddsbarthu'n uniongyrchol i gartrefi trwy gynlluniau blychau, neu wedi cynyddu capasiti cynlluniau sydd eisoes yn bodoli. Nodwyd bod hyn yn creu llwyth gwaith ychwanegol, megis trafod ymholiadau cwsmeriaid neu sefydlu systemau gweinyddol priodol, a chreu costau ychwanegol megis tanwydd.
- Colli **sylyfaen cwsmeriaid** (13 o dyfwyr) - roedd rhai tyfwyr yn dibynnu'n llwyr ar gyflenwi cwsmeriaeth arlwygo neu gyfanwerthu arall sydd wedi diflannu. Mae cau allfeydd eraill, fel marchnadoedd ffermwyr a siopau fferm hefyd wedi cael effaith. Mae llawer wedi medru cael hyd i ffyrdd amgen o werthu cynnyrch, ond mae pryder, unwaith bydd y cyfnod newynog yn mynd heibio, y gallai fod yn anoddach gwerthu popeth sy'n cael ei gynhyrchu.
- **Llwyth gwaith** trymach (10 o dyfwyr - oherwydd absenoldeb staff, salwch neu hunan-ynysu, colli gwirfoddolwyr neu oherwydd galw ychwanegol a phwysau arall ar gapasiti gweinyddol. Mewn rhai achosion, roedd staff/perchnogion rhai busnesau'n delio gyda hyn trwy weithio oriau ychwanegol. Roedd y cwmni mwyaf wedi cyflogi 25 o staff ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti. Roedd eraill yn disgwyl i'r pwysau gynyddu wrth i'r tymor fynd rhagddo y tu hwnt i'r cyfnod newynog, gan nad oes gwirfoddolwyr hirdymor ar gael.

Roedd yr effeithiau eraill a nodwyd yn cynnwys anhawster o ran **cael hyd i gyflenwadau** megis compost neu hadau, tra bod eraill yn pryderu y gallai cynnyrch oedd yn **cael ei brynu i mewn neu ei**

fewnforio i'w ychwanegu at gynlluniau blychau ddod yn anodd cael gafael arno. Effaith arall oedd lefelau uwch o **ansicrwydd**, sy'n golygu ei fod yn anodd rhagfynegi'r galw, neu wybod sut i gynllunio lefelau plannu a chynhyrchu. Nododd tyfwyr â dimensiwn cymunedol eu bod ar hyn o bryd yn methu cyflawni swyddogaethau **cymorth cymdeithasol** megis cynnal grwpiau neu wirfoddolwyr.

5. Heriau'r tymor sy'n dod

Roedd pob ymatebydd yn gallu nodi hyd at dair her maen nhw'n disgwyl eu hwynebu yn ystod gweddill y tymor tyfu. Mae'r materion y cyfeiriwyd atynt amlaf (15 o dyfwyr) yn ymwneud â'r **gadwyn gyflenwi** - naill ai cael gafael ar fewnbynnau (hadau, compost, pecynnu) neu sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn cynnyrch. Mae hyn yn cynnwys ansicrwydd o ran gallu sicrhau cyflenwadau o gynnyrch i ychwanegu at y rhai maen nhw'n eu tyfu eu hunain er mwyn ymateb i'r galw. Agwedd gysylltiedig oedd heriau cysylltiedig â rheoli ffyrdd newydd o werthu, a diffyg sicrwydd ynghylch sut bydd patrymau defnydd yn esblygu.

Mae'r set nesaf amlwg o heriau yn ymwneud ag **argaeledd llafur** (13 o dyfwyr). Mae ffactorau niferus yn effeithio ar gapasiti'r gweithlu: salwch, ynysu cymdeithasol, diffyg argaeledd gwirfoddolwyr o dramor. Gwaethygir hyn gan y cynnydd yn y llwyth gwaith sy'n cael ei achosi gan alw neu waith gweinyddol cynyddol i gefnogi systemau cwsmeriaid newydd.

Nodwyd bod diffyg sicrwydd ynghylch y **gadwyn gyflenwi** yn arwain yn gyffredin at heriau o ran cynllunio lefelau cynhyrchu priodol (9 o dyfwyr). Mae angen rhagweld y galw'n gywir er mwyn cynllunio lefelau priodol o blannu a staffio. Ond mae newidiadau sydyn yn y galw ac mewn patrymau manwerthu wedi troi cynllunio busnes wyneb i waered:

Ansicrwydd - pryd dylem ni ddechrau plannu eto, fel bod gennym ni stoc lawn o gynnyrch ar gyfer yr adeg pan ddaw'r cyfyngiadau symud i ben? Mae angen amser i baratoi.

Roedd rhai busnesau'n ansicr a ddylen nhw fuddsoddi mewn seilwaith newydd neu ehangu cynhyrchu ar sail y galw cyfredol, gan nad oes gwarant o hynny.

Mater cysylltiedig yw her llif arian annigonol neu gyfalaf i fuddsoddi mewn ehangu neu gostau busnes eraill. Nodwyd y rhain a mathau eraill o **bwysau ariannol** gan 7 o dyfwyr, gan gynnwys y rhai sydd wedi dioddef gostyngiad yn y galw a'r incwm cysylltiedig. Nododd rhai gostau uwch megis tanwydd am ddsbarthu nwyddau.

Mae'r categori olaf o heriau uniongyrchol yn ymwneud â phryderon ynghylch **iechyd a diogelwch** ar safleoedd cynhyrchu a phrosesu (6 o dyfwyr). Mae hyn yn cynnwys rheoli salwch staff, a sicrhau bod pellter cymdeithasol yn cael ei gynnal. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r pwysau ar y gweithlu, gan fod cadw at y gofynion ynysu cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n profi symptomau C19 yn golygu bod rhai aelodau o staff allan o gylchrediad.

Yn ogystal â materion cysylltiedig â'r argyfwng presennol, nododd rhai ymatebwyr **heriau parhaus** sy'n dal i gael effaith arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau cynllunio, diffyg tir i ehangu cynhyrchiant, ac amrywiol ffactorau sy'n effeithio ar gnydau planhigion (tywydd, sychder ac ati).

6. Anghenion cefnogi

Gofynnwyd i dyfwyr awgrymu hyd at dri math o gefnogaeth allanol a fyddai'n fwyaf defnyddiol ar gyfer gweddill y tymor tyfu hwn. Yr angen yr adroddwyd amdano amlaf oedd **cymorth ariannol** (14 o Dyfwyr). Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau am gymorth ariannol i dalu am gostau uwch neu gyfleoedd i ehangu, er enghraifft i greu polydwnelau newydd neu i sicrhau rhagor o dir. Yn achos eraill, mae angen cefnogaeth ariannol i wneud iawn am incwm a gollwyd, neu gostau cynyddol. Roedd rhai tyfwyr yn ymwybodol y gallai grantiau Llywodraeth fod ar gael, ond roedd angen mynediad at well gwybodaeth ynghylch pa gefnogaeth sydd ar gael. Yn ystod yr Uwch-gynhadledd atgoffwyd tyfwyr fod y rhai sydd â rhif deiliadaeth fferm yn gallu cael mynediad i grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Amlygodd un tyfwr yr angen am sicrhau bod cefnogaeth ariannol yn targedu effaith tymor canolig: Sicrhau nad yw cynlluniau grant a chefnogaeth yn dod i ben, fel bod busnesau yng Nghymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar adleoli cadwyni cyflenwi, a fydd yn digwydd yn anochel wedi'r argyfwng hwn. Bydd adferiad economaidd yn allweddol, ac yn fuan bydd gennym ni amser i gynllunio ar gyfer hynny.

Amlygodd ymatebwyr eraill fuddsoddiadau parhaus a fyddai'n helpu i **gynyddu capasiti cynhyrchu** yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogi tyfwyr i gaffael tir a buddsoddiad mewn hyfforddiant garddwriaethol. Mynegodd rhai deimlad nad yw cynlluniau fferm cyfredol yn ffafrio tyfwyr bychain, ac roedd consensws y gellid addasu'r rhain i gefnogi garddwriaeth yn well yng Nghymru.

Pwysleisiodd y drafodaeth yn ystod yr Uwch-gynhadledd yr angen am **fuddsoddiad cyfalaf mewn garddwriaeth**, er mwyn cefnogi caffael tir a darparu seilwaith i gefnogi cynhyrchu cynyddol.

Y math nesaf amlycaf o gais oedd am ddarparu **cyngor, arweiniad ac arbenigedd unigryw** (10 o dyfwyr). Roedd yr anghenion a nodwyd yn cynnwys rhai ar gyfer cefnogaeth ar ffurf cyngor penodol i gynhyrchu garddwriaethol (e.e. plannu cnydau, dyfrhau). Roedd addasu i gadwyni cyflenwi a systemau gwerthu newydd yn creu anghenion eraill, er enghraifft gyda gwerthiannau ar-lein neu arferion pecynnu diogel. Roedd rhai ceisiadau'n ymwneud yn benodol ag amodau sydd wedi'u creu gan covid-19, megis cyngor ar arferion gweithio diogel.

Yn ystod yr Uwch-gynhadledd nodwyd bod llawer o dyfwyr wedi gorfod cyflwyno arferion gwerthu newydd ar frys, ac y byddai rhannu **arfer da** ynghylch cynnal cynlluniau blychau a logisteg cysylltiedig yn ddefnyddiol. Tynnwyd sylw tyfwyr hefyd at adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael gan Tyfu Cymru a Farming Connect.

Roedd y trydydd categori o anghenion cefnogi yn ymwneud â **chynyddu capasiti** a'r angen am ragor o weithlu er mwyn cynhyrchu mwy a rheoli mathau eraill o bwysau (6 o dyfwyr). Nododd rhai tyfwyr yn syml fod angen staff neu wirfoddolwyr. Nododd eraill fod angen setiau sgiliau penodol: pobl sy'n gallu cynyddu ein capasiti (sgiliau TG ac ati).

Nodwyd hefyd y gallai pecynnau cefnogaeth y Llywodraeth i fusnesau a chyflogwyr y mae C19 yn effeithio arnynt leihau argaeledd llafur trwy ddileu cymhelliad i wneud gwaith dros dro.

Roedd y categori olaf o gefnogaeth y gofynnwyd amdano yn ymwneud â gwella **llif gwybodaeth**, naill ai rhwng cymeriadau yn y gadwyn gyflenwi, neu rhwng cynhyrchwyr a chwsmeriaid. Roedd

galwadau am ymgyrchoedd marchnata i hyrwyddo bwyd lleol, a hysbysu'r cyhoedd ynghylch sut mae prynu cynnyrch o Gymru. Gofynnodd rhai am gyfeirlyfrau ar-lein o gyflenwyr garddwriaethol sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Gofynnwyd hefyd am well llif gwybodaeth rhwng y llywodraeth, cynhyrchwyr a chymeriadau eraill. Amlygodd un cyfranogwr yn yr Uwch-gynhadledd fenter hyrwyddo bwyd lleol ym Mryste, y gelid ei hefelychu (<https://supportbristolfood.co.uk/>).

7. Galluogi ehangu cynhyrchiant

Cadarnhaodd y drafodaeth yn ystod yr Uwch-gynhadledd yr anghenion cefnogi a nodwyd gan yr arolwg. Y neges allweddol y cytunodd y cyfranogwyr arni oedd y **dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cynhyrchwyr garddwriaethol, gan gynnwys tyfwyr ar raddfa fach**. Nid oedd hyn yn gyfangwbl gysylltiedig â'r argyfwng presennol, yn hytrach roedd yn apêl am gydnabod gwerth y tyfwyr hyn, ar adeg pan yw eu rôl yn arbennig o amlwg.

Awgrymwyd cefnogaeth a allai ehangu cynhyrchiant yn gyflym yng Nghymru:

- **Grantiau** i alluogi newydd-ddyfodiaid i sefydlu eu menter.
- Gwasanaethau i **baru tir fferm sydd ar gael â thyfwyr** sy'n chwilio am safleoedd cynhyrchu newydd neu wedi ehangu.
- Rhwydweithiau **rhannu sgiliau** neu baru gwasanaethau ar-lein.
- **Ymgyrch farchnata yng Nghymru** i hyrwyddo cynnyrch lleol.
- **Cydluniant** rhwng tyfwyr ac aelodau o'r gadwyn gyflenwi i ganiatáu cynlluniau tyfu cydweddus.
- **Canolfannau Dosbarthu** sy'n debyg i Rwydweithiau Bwyd Agored.
- Cydlynu er mwyn hybu **paru adnoddau** a rhannu cyfarpar.

Mae rhai mentrau eisoes ar waith, gan gynnwys gwaith gan y Gynghrair Gweithwyr Tir i grynhoi gwybodaeth am dyfwyr a hyfforddwyd yn barod i sefydlu cynhyrchiant newydd, yn amodol ar argaeledd safle a chyfalaf.

Gallai rhai atebion a awgrymwyd fod yn fwy addas ar gyfer buddsoddiad **tymor canolig i hir** yn y sector, yn hytrach nag fel ymatebion i'r argyfwng ar unwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer hyfforddeion neu brentisiaethau fel bod modd i fwy o bobl ddod yn gynhyrchwyr, a newid mesurau rheoli cynllunio fel bod modd i dyfwyr fyw ar y safle. Nodwyd amaethyddiaeth amgylchedd rheoledig hefyd yn faes twf posibl.

Nododd y cyfranogwyr faes ychwanegol y gellid ei gefnogi: galluogi pobl i **dyfu bwyd gartref**, gan gynnwys mewn ardaloedd trefol. Nodwyd mynediad at gyflenwadau i ganiatáu hynny fel problem ar hyn o bryd. Nodwyd bod y gwaith parhaus i hybu'r ddarpariaeth o randiroedd yn dal i ddigwydd y tu hwnt i'r cynnydd presennol mewn diddordeb.

Un o themâu allweddol y trafodaethau oedd bod y cynnydd cyfredol yn y galw am gynnyrch o Gymru yn gyfle anferth, a fydd yn ddelfrydol yn cael ei drosi'n gwsmeriaeth a chefnogaeth barhaus, **yn y tymor hwy**. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

nawr yw'r amser i Lywodraeth Cymru roi cymhelliad i Ffermwyr Cymru a thyfwyr gydweithio er mwyn cynyddu graddfa cynhyrchiant.

8. Negeseuon allweddol

Roedd y Consensws o'r Uwch-gynhadledd yn troi o gwmpas y materion allweddol canlynol, yr oedd angen rhoi sylw iddynt a gweithredu yn eu cylch ar lefel genedlaethol:

1. Yr angen am fuddsoddiad a chefnogaeth ar ffurf cyfalaf i gynhyrchwyr garddwriaethol.
2. Pwysigrwydd gwella sgiliau a darparu hyfforddiant ym maes tyfu bwyd.
3. Gwerth ymgyrchoedd defnyddwyr i hyrwyddo cynnyrch lleol.
4. Potensial cydweithio rhwng tyfwyr a chydlynu ar draws y gadwyn gyflenwi i wella effeithlonrwydd a chaniatáu ehangu.
5. Pwysigrwydd deall tueddiadau defnydd er mwyn cynllunio'n effeithiol.
6. Yr angen am roi sylw i rwystrau parhaus sy'n atal cynhyrchu yng Nghymru rhag cael ei raddio i fyny.

Mynegodd cyfranogwyr yn yr Uwch-gynhadledd ddymuniad i gynnal y math yma o gyswllt, a pharhau â'r gwaith i gydlynu gweledigaeth ar gyfer garddwriaeth yng Nghymru.

